Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Edrych i'r dyfodol Dysgu ar y cyd rhwng Cyngor Sir Fynwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Dydd Iau 17 Mawrth 2016, 09:00- 13:00, Park Inn, Caerdydd, CF10 2JH

Agenda

08:45 Cofrestru a choffi

09:05 Gwybodaeth a Threfniadau

09:10 Prif araith
Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru

09:20 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Y daith hyd yma**

Hazel Clatworthy, Will McLean a Matthew Gatehouse, Cyngor Sir Fynwy, Mike Palmer, Swyddfa Archwilio Cymru a Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Pan fydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dod i rym ym mis Ebrill 2016, bydd yn rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddangos sut maen nhw'n cyfrannu at saith nod llesiant ac yn gweithio at egwyddorion datblygu cynaliadwy i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal.

Fel rhan o waith Cyngor Sir Fynwy gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel un o'r rhai 'cynnar i fabwysiadu' y Ddeddf, gofynnodd y cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu pa mor barod oedden nhw ar gyfer y Ddeddf. Yn ystod y sesiwn hon, bydd Hazel Clatworthy yn rhoi adroddiad agored a gonest o daith Sir Fynwy i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu gwaith. Bydd Hazel yn rhannu'r llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd a fydd o fudd i'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd Mike Palmer, Swyddfa Archwilio Cymru a Neville/Tim, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn rhannu eu profiadau o weithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Fynwy yn ystod yr adolygiad a'r gwersi a ddysgwyd o'u safbwynt nhw.

10:30 **Bydd gan y mynychwyr gyfle i fynd i'r ddau weithdy canlynol**

Rhannu profiadau dysgu
Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Yn y gweithdy hwn, bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn cynorthwyo'r holl wasanaethau cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf. Bydd gan fynychwyr gyfle hefyd i rannu'r hyn mae eu sefydliadau'n ei wneud ar hyn o bryd ac ymhle mae'r heriau.

Archwilio yn y dyfodol
Mike Palmer, Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dwyn heriau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond bydd yr un mor heriol hefyd o ran y ffordd rydym yn archwilio. Yn y gweithdy hwn, bydd Mike yn edrych ar rôl archwilio a bydd gan y mynychwyr gyfle i drafod sut rydym yn gweithio'n well gyda'n gilydd i fanteisio ar gyfleoedd ac wynebu'r heriau o weithredu'r Ddeddf.

11.15 **Mynychwyr yn mynd i'r ail weithdy**

12:00 **Sesiwn llawn**

Edrych tua'r dyfodol – Ble ddylen ni fod ymhen 5 mlynedd?

Yn y sesiwn hon, bydd gan y mynychwyr gyfle i drafod sut ddyfodol sydd, o bosib, i Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Ble rydyn ni'n awr, a lle mae angen i ni fod?

12:30 Galw i weithredu

12:45 Cloi a chinio

Manylion cyswllt

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â Bethan Davies ar 01244 525978 neu anfon e-bost at good.practice@audit.wales